03/09/21

Annwyl rieni,

Mae'n anodd i gredu mae'r gwyliau wedi dod i ben ac mae blwyddyn academaidd newydd wedi dechrau. Rydym i gyd fel staff yn edrych ymlaen i groesawi'n holl ddisgyblion nôl ac wrth gwrs i groesawi disgyblion newydd i'n teulu bach ni. Rwy'n gwybod o brofiad mae'n anodd i adael eich 'babis' bach chi am y tro cyntaf yn yr ysgol ond rwy'n hyderus y byddant yn setlo'n gyflym ac yn mwynhau, felly peidiwch â gofidio!

Staffio

Yn gyntaf hoffwn eich hysbysu am sefyllfa staffio newydd yn yr ysgol eleni. Yn anffodus rydym wedi ffarwelio gyda Mrs Brown dros dro wrth iddi gymryd swydd dwy flynedd yn gweithio i'r sir. Hoffwn gymryd y cyfle i ddweud diolch iddi am bopeth ac i ddymuno'n dda iawn iddi yn ei swydd newydd. Yn absenoldeb Mrs Brown mi fyddaf yn cymryd yr awennau ac yn bennaeth gweithredol am y cyfnod. Edrychaf ymlaen at yr her newydd ac mi wnaf fy ngorau i lenwi esgidiau mawr Mrs Brown! Mi fyddaf yn y swyddfa ar ddydd Llun, dydd Mawrth a dydd Mercher ac yn y dosbarth ar ddydd Iau a dydd Gwener yn dysgu. Wrth gwrs mi fydd yn anoddach i ddelio ag unrhyw fater tra fy mod yn y dosbarth ar ddiwedd yr wythnos ond cysylltwch a'r ysgol, gadewch neges ac mi wnaf ymateb cyn gynted â phosib.

Covid 19

Am y dyfodol agos rydym wedi derbyn canllawiau wrth y sir i gadw at yr un gweithdrefnau Covid 19 a oedd mewn lle gyda ni cyn yr Haf ac i gadw i'r 'swigod' dosbarth. I leihau'r risg o ledaenu'r feirws os mae'ch plentyn ag unrhyw symptom Covid ni ddylent fod yn yr ysgol ac i fynd am brawf Covid. Yn dilyn y cyfarfod i benaethaid y sir ar ddechrau'r wythnos nesaf byddaf yn eich diweddaru ag unrhyw wybodaeth newydd sy'n bwysig ac yn berthnasol. Mae'n bwysig i chi roi wybod i ni am symptomau newydd a chanlyniad positif yn syth er mwyn i ni ddilyn y camau gweithredol o fewn yr ysgol.

Dysgu tu allan

Rydym wedi gofyn i chi ddarparu dillad gwrthddŵr a welis ar gyfer ein sesiwn wythnosol tu allan. Bydd hwn yn dechrau yr wythnos ar ôl nesaf sef y 13eg ac mi fyddwn yn cadw i'r un diwrnod yn wythnosol. Argymhellwn i'r plant sy'n mynd allan peth cyntaf yn y bore i wisgo'n barod i fynd tu allan gydag esgidiau mewn bag ar gyfer newid wedi dychwelyd i'r ysgol a'r plant yn y prynhawn i ddod â dillad gwrthddŵr a welis mewn bag i newid amser cinio.

Dydd Llun : Dosbarth Mrs Battenbough yn y prynhawn

Dydd Mawrth : Meithrin yn y bore a'r Derbyn yn y prynhawn

Dydd Mercher: Bl 5/6 yn y bore

Dydd Gwener: Bl 3/4 yn y bore

Dydd Mawrth 14/ 09/21 Mae Tim diogelwch y ffordd y sir yn ymweld â'r ysgol ac wedi trefnu sesiwn diogelwch y ffordd i blant yr adran Iau (Bl 3,4,5 a 6) ar fuarth yr ysgol. Bydd angen i'r plant ddod â beic neu sgwter ac helmed i'r ysgol ar y diwrnod hwnnw, wrth gwrs mi fydd yn bosib i chi storio beiciau yn neuadd yr ysgol dros nos.

Gwersi Addysg Gorfforol

Bydd angen i'ch plentyn wisgo cit ymarfer ar y diwrnodau canlynol:

Meithrin/Derbyn: Dydd Mercher **Bl 3/4: Dydd Iau**

Bl 1/2: Dydd Mawrth **Bl 5/6: Dydd Mawrth**

Diolch ymlaen llaw am eich cydweithrediad yn y materion uchod.

Yn ddiffuant ,

Mrs K Penhale

03/09/21

Dear Parents,

It's hard to believe the Summer is over and a new academic year has started. As staff we are really looking forward to welcoming all of our pupils back and of course welcoming our new pupils to our little family. Speaking from experience, I know new parents it's difficult for you to leave your children for the first time but rest assured they're in good hands and I'm confident they'll settle in quickly!

Staff changes

Firstly I'd like to inform you of new staff changes in the school. Unfortunately Mrs Brown will not be returning this term as she has accepted a temporary two year secondment working in the county. As staff we'd like to thank her for everything she has done for the school and wish her every success in her new post. In her absence I will be the acting head teacher and I look forward to this new challenge. I will be in the office Monday to Wednesday and teaching Year 5/6 every Thursday and Friday. Due to my teaching commitments it may be more difficult to deal with any queries at the end of the week but please leave a message with Mrs Salter and I will respond as quickly as I can.

Covid 19

For the time being we have received guidance from the county to keep to the same measures that we had in place before the Summer which will mean keeping to class 'bubbles'. To stop the spreading of this virus children with Covid symptoms must still stay at home , inform the school and go for a Covid test. Further guidance and information, especially about new isolation rules, will be given in a county meeting at the beginning of the week, which I will share with you to keep you up to date. In the case of a positive test please inform the school as soon as possible.

Learning Outdoors

Before the Summer we asked for you to provide waterproofs and wellies for our weekly outdoor sessions. This will begin the week after next (13th September) and we'll be keeping to the same day every week. We'd like children who will be going out in the mornings to come to school dressed ready for the outdoors with school shoes in a bag and children who'll be going out in the afternoon to bring waterproofs and wellies in a bag to change in school.

Monday : Year 1/2 pm

Tuesday : Nursery a.m. Reception p.m

Wednesday: Year 5/6 a.m.

Friday: Year 3/4 a.m.

Tuesday 14/ 09/21 NPT Road safety team will be visiting the school and will be teaching Year 3/4 and Year 5/6 road safety skills on the school yard. The children will need a bike or scooter and a helmet on the day. We appreciate this may be difficult to arrange in the morning therefore the option is available for you to store your child's bike/scooter in the school hall over night.

P.E. Lessons

Your child will need to wear a sports kit on the following day:

Nursery/Reception: Wednesday **Year 3/4: Thursday**

Year 1/2: Tuesday **Year 5/6: Tuesday**

Thank you in advance for your co-operation.

Mrs K Penhale